# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Wener, 25ain Ebrill 2014.**

**Presennol. Mri:-** A. O. Griffiths, D.G.Jones, H.D.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, T.J.Thomas, G.Wigley, Mrs Gwen Lloyd, Mrs Ann Williams a Mrs Gwenfair Davies

**Ymddiheuriadau.** Mri:- Dafydd Evans, Siôn Ifans, J.P.Jones a H.M.Williams,

**104. Cofnodion cyfarfod 28ain Mawrth 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**105. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Mis Ionawr
70.2 Diolchwyd i'r cadeirydd am osod y plac *QR Code* ar y gofeb yng Nghemaes.
Mis Chwefror
93.1 a 93.2 Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Un Llais Cymru am ail ymaelodi ac anfoneb oddi wrth drysorydd y Ganolfan am logi'r ystafell.
95.2 Diolchwyd am ein cynnig i barhau efo'r enw Ysgol Bro Ddyfi ar yr ysgol newydd ym Machynlleth ond enw'r ysgol newydd fydd Ysgol Bro Hyddgen. Nid oedd hyn yn dderbyniol gan nad yw Hyddgen mor berthnasol i ysgolion oddi allan i Fachynlleth.
95.3 Yr Heddlu'n awyddus i alw mewn i'n cyfarfodydd o bryd i'w gilydd - hwyrach ym mis Mai. Os bydd gan rywun fater i'w drafod byddant yn falch o'i drafod yn gyhoeddus neu yn breifat.
Mis Mawrth
96.1 Derbyniwyd un cais arall i ofalu am y mynwentydd. Gan fod mater o yswiriant y cyhoedd wedi ei godi yng nghyfarfod mis Mawrth nid oedd y cadeirydd na'r clerc am ystyried y cais a derbyniwyd pris Mr Glenn Ward o £1200.
102.2 Ymddeoliad Ann Williams o'r Swyddfa Bost yng Ngwmlline. Annelwig iawn yw bwriadau'r Post Office Ltd am ddyfodol y gwasanaeth yn y pentref. Llythyr i'w anfon i ofyn am eu cynlluniau i'r dyfodol.
102.4 Anfonodd clerc Cyngor Tref Machynlleth gopïau o'r chwe llythyr mae wedi ei dderbyn i ofyn i'r Cyngor ddymchwel y tŷ yng Ngheinws lle'r honnir i April Jones gael ei llofruddio. Mae'r clerc wedi ateb trwy awgrymu iddynt gysylltu â'r Cyngor Sir, heb gyfeirio mae o fewn terfynau Cyngor Glantwymyn mae'r tŷ.

**106. Cynllunio.**
Dim cais yn ystod y mis.

**107. Eitemau i'w talu.**
Dyma'r adeg o'r flwyddyn mae'r Cyngor yn trafod cyfrannu tuag at y mynwentydd sydd ddim yn perthyn i'r Cyngor. Cytunwyd i gyfrannu £200 yr un eleni eto tuag at eu cynnal.
107.1 Mynwent Talywern. 107.2 Mynwent Cwmlline.
107.3 Mynwent Capel Cemaes. 107.4 Mynwent yr Eglwys, Cemaes.

**108. Cais am arian.**
Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**109. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
109.1 Bu Gwenfair mewn cyfarfod o fforwm y cleifion ym Machynlleth a chafwyd sicrwydd y bydd y gwasanaeth Ambiwlans ar gael 24 awr y dydd ond nid o angenrheidrwydd o'r orsaf ym Machynlleth.
109.2 Eglurodd Aled fod Mr Nigel Hughes, Comins Coch wedi ei ethol yn bennaeth ar y tair ysgol, Carno, Llanbrynmair a Glantwymyn. Roedd Aled yn amau a oedd ffederaleiddio yn arbed arian mewn gwirionedd. Bydd Ysgol Glantwymyn yn wynebu arolwg Estyn ym mis Medi eleni.

**110. Gohebiaeth.**

110.1 Gohebiaeth oddi wrth Russell George sydd wedi cael mwy o gyfrifoldebau yn y Senedd ac mae'n barod i siarad efo unrhyw un er mwyn dysgu am broblemau amaethyddol ym Maldwyn. Mae hefyd yn cyfeirio at y wefan lle gellir darllen ei areithiau. www.RussellGeorge.com/news a chlicio ar "Speeches in the Senedd."

110.2 Mae cwmni Richard Glover-Davies, sy'n datblygu'r wefan ar ein rhan, angen llun o'r cynghorwyr i gyd, cynllun lliw, a'r hyn fydd y Cyngor ei angen i roi ar y we, megis agenda'r cyfarfod sydd i ddod a chofnodion y cyngor diwethaf. Cytunwyd i dynnu llun o'r cynghorwyr fel grŵp yn y Cyfarfod Blynyddol.

110.3 Cylchlythyr Tai Gwledig Powys.

**111. Unrhyw fater arall.**

111.1 Bydd Siôn Ifans yn symud i fyw i Lanymawddwy yn fuan ac, os yn bosib, yn dymuno parhau i gynrychioli Cemaes ar y Cyngor. Darllenodd y clerc y cymhwyster sydd yn galluogi iddo barhau sef ei fod yn denant ar dir oddi fewn y gymuned. Bydd yn dal tenantiaeth Tanyffordd ar ôl symud i Lanymawddwy. Llythyr i ddymuno'n dda iddo ef a'r teulu yn eu cartref newydd.

111.2 Dosbarthwyd y fantolen i'r rhai oedd yn bresennol. Pasiwyd bod Mr Arnold Shuter yn archwilydd mewnol eleni eto ac iddo archwilio'r cyfrifon cyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai.

111.3 Llythyr i ddymuno'n dda i'r cynghorydd Dafydd Evans fydd yn priodi ar Mai 3ydd.

111.4 Llythyr i ddymuno'n dda i'r cynghorydd Ann Williams ar ei hymddeoliad o'r Swyddfa Bost yng Nghwmlline ar ôl 32 mlynedd o wasanaeth.

111.5 Roedd Aled yn awyddus i wybod y diweddaraf am sefyllfa'r Anrheg ar y Waun, Cemaes gan fod y cyfnod oedd y perchnogion wedi ei gael i glirio allan o'r safle wedi dod i ben. Llythyr i'r Swyddog Gorfodaeth.

111.6 Atgoffa'r Cyngor Sir am y perygl yn y ffordd o flaen tai Rhos Awel, Cwmlline.

111.7 Atgoffa'r Cyngor Sir nad oes dim wedi ei wneud i wella'r fordd gefn tuag at y Ganolfan Amgen, Ceinws.

111.8 Mae darnau o'r ffordd B4404 (Llanwrin) wedi cael sylw, ond mae llawer mwy i'w wneud.

Nid oedd mater arall.

## Pwysig

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30ain Mai 2014 a fydd yn**

**Gyfarfod Blynyddol y Cyngor.**

Bydd angen cael llun o'r cynghorwyr yn ystod y cyfarfod er mwyn eu rhoi ar y we.

Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i leisio barn yn ystod y Cyfarfod Blynyddol.